

Cynllun Iaith Gymraeg Remploy 2009

Paratoir yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cynnwys

Tudalen

3	Rhagair
2 – 5	Cyflwyniad, Gweledigaeth a Chenhadaeth
5 – 6	Cynllunio a Darparu Gwasanaethau <ul style="list-style-type: none">▪ Polisiâu, Deddfwriaeth, Gwasanaethau a Mentrau▪ Darparu Gwasanaethau▪ Ein Swyddogaethau Rheoleiddio▪ Safonau ansawdd
6 – 9	Cyfathrebu â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg <ul style="list-style-type: none">▪ Gohebiaeth▪ Gohebu dros y ffôn▪ Cyfarfodydd Cyhoeddus▪ Cyfarfodydd Eraill▪ Cysylltiadau Eraill
9 – 12	Delwedd Gyhoeddus <ul style="list-style-type: none">▪ Arddangosfeydd▪ Cyhoeddiadau▪ Gwefannau▪ Ffurflenni▪ Hunaniaeth gorfforaethol▪ Arwyddion▪ Hysbysiadau Swyddogol▪ Datganiadau i'r Wasg
12 – 15	Gweithredu'r Cynllun <ul style="list-style-type: none">▪ Staffio▪ Recriwtio▪ Hyfforddiant Iaith▪ Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu▪ Partneriaeth▪ Mewnol▪ Deddf Rhyddid Gwybodaeth▪ Monitro▪ Adolygu▪ Cwynion a Manylion Cyswllt
16	Atodiad 1
17	Atodiad 2
20	Atodiad 3

Rhagair

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.

Dyma ein cynllun.

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnesau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny. Wrth wneud hynny, bydd gwasanaethau Remploy ar gael i gynulleidfa ehangach hyd yn oed.

Mae'r cynllun yn cynnwys y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair *cyhoedd* pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth yn weithredol ym 24ain Tachwedd 2009.

1 Cyflwyniad, Cenhadaeth a Gweledigaeth

- 1.1 Remploy yw'r arbenigwr sy'n arwain y farchnad i ddarparu gwasanaethau cyflogaeth arbenigol ar gyfer yr anabl a'r rheini sy'n teimlo ganddynt ffiniau cymhleth ynghylch cyflogaeth. Mae ystod eang ein gwasanaethau'n galluogi'r anabl, pobl â chyflwr iechyd ac eraill i wneud y gorau o'u sgiliau a'u galluoedd, i gaffael neu gadw cyflogaeth gynaliadwy.

Mae Remploy'n ymrwymedig y bydd yn darparu swyddi o ansawdd a datblygiad personol ar gyfer yr anabl i'w galluogi i gyflawni eu potensial – Swyddi Go lawn ar gyfer Pobl Go lawn.

Ein nod yw cyflogi'r nifer mwyaf posibl o'r anabl, o fewn ein busnesau sector cynhyrchu a gwasanaeth ein hunain yn ogystal â gan gwmnïau a sefydliadau eraill.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol gwaith i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer yr anabl, ac yn deall y gwerth, yn nhermau hunan barch ac annibyniaeth, y gall swydd go iawn ei roi. Ein pwrpas yw helpu niferoedd o bobl sy'n cynyddu o hyd i gyflogaeth gynaliadwy, effeithiol yn economaidd – swyddi go iawn.

Mae Remploy'n brif gyfrannwr i raglenni cyflogaeth y Llywodraeth ar gyfer yr anabl. Rydym yn paru gobeithion yr anabl i ddod o hyd i swyddi go iawn, â pholisïau a rhaglenni'r llywodraeth a gynlluniwyd i greu'r fath gyfleoedd, ac â'r galw gan gyflogwyr am weithwyr dibynnol ac ymrwymedig. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng rhaglenni asesu unigol a hyfforddiant pwrpasol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwaith o ansawdd a datblygiad personol ar gyfer pawb a gyflogir gennym i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Yn Remploy mae hyfforddiant sgiliau a chynllunio datblygiad personol ar gael i bawb, i alluogi unigolion i wneud cynnydd a llwyddo.

Rydym yn gweithio'n galed i gynyddu niferoedd yr anabl mewn rolau rheoli, technegol ac arolygu ac yn darparu hyfforddiant rheoli a leolir mewn prifysgol ar gyfer symud yn gyflym i brif swyddi rheoli.

Mae'r cyfleoedd a'r hyfforddiant rydym yn eu darparu'n addas i broffil busnes cyfoes, gan gynnwys y sector gwasanaeth a chynhyrchu sy'n ehangu, lle rydym yn ceisio cynnal busnesau cynaliadwy.

Mae busnesau Remploy eu hun yn darparu cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd i nifer fawr o gwmnïau ac awdurdodau lleol.

Mae'r cwmni'n datblygu'n gyson wrth ymateb i ddisgwyliadau a dyheadau sy'n newid gan y gymuned rydym yn ei gwasanaethu, a'r tirlun economaidd sy'n newid rydym yn gweithio ynddo.

Mae Remploy'n ymrwymedig y bydd yn gweithio ar y cyd â chymunedau lleol a chymdeithasau eraill ar gyfer yr anabl. Rydym yn gyfrannwr hanfodol ac yn ffynhonnell arbenigedd mewn trafodaeth a llunio polisi ynghylch cyflogaeth yr anabl.

1.2 **Ein Cenhadaeth**

Bod yn arweinydd i gefnogi'r anabl a phobl â chyflyrau iechyd hir dymor a ffiniau cymhleth neu luosog i waith, i gael cyflogaeth gynaliadwy gyda chyflogwyr prif ffrwd yn ogystal â'n busnesau ein hunain.

1.3 **Ein Gweledigaeth**

Cael ein cydnabod fel arweinwyr y DU mewn cyflogi, datblygu a dangos y ffordd i'r anabl at gyflogaeth gynaliadwy o ansawdd.

1.4 **Gweledigaeth Amrywiaeth**

Cefnogi gweledigaeth y Gwasanaethau Cyflogi cyffredinol wrth sicrhau mai ni yw'r grym newydd mewn cyflogaeth gynaliadwy ar gyfer pobl yn y DU sydd â ffiniau lluosog i gyflogaeth, gan gynnwys anabledd / cyflyrau iechyd hir dymor.

Wrth wraidd hyn, mae arferion cynhwysol ar gyfer ein pobl, cynnyrch a gwasanaethau. Ein gôl masnachol yw cyrraedd mantais gystadleuol drwy arferion amrywiaeth enghreifftiol sy'n rhoi gwerth ychwanegol y gellir ei brofi i'n busnes.

1.5 Yng Nghymru, ar hyn o bryd mae dwy gangen a leolir yng nghanol dinas ar agor i'r cyhoedd; un yng Nghaerdydd ac un yn Abertawe. Mae swyddfeydd eraill ar gael yng Nghasnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, y Cymoedd a Gogledd Cymru ac mae gan bob un gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd.

Wrth alluogi ein cleientiaid a'n cwsmeriaid i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg byddwn yn cynnig gwell gwasanaeth i siaradwyr y Gymraeg.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.remploy.co.uk. Os hoffech gopi o Gynllun yr Iaith Gymraeg mewn fformat arall, mae croeso i chi gysylltu â ni wrth ddefnyddio'r manylion a welir ar ddiwedd y cynllun.

2 **Cynllunio a darparu gwasanaethau**

2.1 **Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau**

Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddwn yn sicrhau, pan yn bosibl, eu bod yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.

Pan yn bosibl, bydd ein dogfennau ymgynghorol yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisiâu, mentrau a gwasanaethau sydd o dan sylw.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Cymerwn pob cyfle i sicrhau y bydd deddfwriaeth gynradd ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

2.2 **Darparu gwasanaethau**

Ein harfer safonol yng Nghymru fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg. Byddwn yn cymryd camau rhesymol a chyfatebol i gyflawni hyn yn ein cynllunio a darparu'r gwasanaeth.

Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd y gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg.

2.3 **Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau yr ymgwymerir â hwy ar ein rhan gan drydydd parti**

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partiön yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod trydydd partiön yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn unol â'r cynllun hwn. Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at ein Cynllun yr Iaith Gymraeg o fewn cytundebau partner, lle darperir gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.4 **Safonau ansawdd**

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg ac yn y Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

3. **Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

3.1 **Gohebiaeth**

Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn y Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb i lythyrau a ysgrifennwyd yn y Saesneg.

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn y Saesneg byddwn yn ateb yn y Saesneg ond yn nodi hefyd ein bod yn barod i ohebu yn y Gymraeg yn y dyfodol.

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith ac yn ateb yn yr iaith honno. Os mae hyn ddim yn bosibl byddwn yn ymateb yn ddwyieithog.

Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn y Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn y Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd ei chael yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn unig.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael. Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael. Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth dros yr e-bost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg a anfonir ei lofnodi.

Bydd pob gohebiaeth a anfonir gennym yn y Gymraeg dros yr e-bost, o Gymru, yn cynnwys llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog).

3.1.1 **Gohebu dros y ffôn**

Mae Remploy'n croesawu unrhyw un i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn a ffôn testun yn ein swyddfeydd yng Nghymru.

Bydd ein staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol. Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

Ar brif beiriannau ateb ffôn Remploy yng Nghymru, bydd y neges a recordiwyd yn ddwyieithog. Mae croeso i alwyr adael negeseuon naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Os bydd galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol yng Nghymru ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond ni all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad at gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ac yn gymwys i ddelio â'r ymholiad.

Os na fydd siaradwr y Gymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, naill ai i aros i siaradwr y Gymraeg ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn y Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn y Gymraeg, drwy lythyr neu e-bost.

Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i'r staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg.

3.1.2 **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu gyfieithu dilynol, o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan Remploy yng Nghymru, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru'n ddwyieithog, ac yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw o'r iaith y dymunant ei siarad.

Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu ein cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn y Gymraeg.

Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg – ac yn sicrhau bod adroddiadau a phapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth ddewis staff i fynychu ein cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr y Gymraeg cymwys yn mynychu, fel y bo'r angen.

3.1.3 **Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru**

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd preifat â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a byddwn am sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad y Gymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Os na fydd siaradwr y Gymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig parhau â'r cyfarfod yn y Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn y Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio fideo-gynadledda ac offer tebyg.

Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.1.4 **Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru**

Pan fyddwn yn cynnal **arolygon cyhoeddus**, byddwn am sicrhau bod pob agwedd o gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gofynnir i ymatebwyr a hoffent ymateb i'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn y Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried dewis iaith y mynychwyr ac a oes modd dod o hyd i hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith.

4. **Ein delwedd gyhoeddus**

4.1 **Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion**

Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol) eu cynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygrych.

Eithriadau i'r uchod fydd:

- deunydd i'w defnyddio mewn digwyddiadau megis eisteddfodau yng Nghymru, lle gellir defnyddio deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a hysbysebu uniaith Gymraeg.

- deunydd ar gyfer cynulleidfa gyfyng ac arbenigol. Byddwn yn ystyried ymhob achos yr angen i'w gyhoeddi'n ddwyieithog, gan ystyried natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Dim ond yn y Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Pan fydd angen staff i ofalu am stondinau ac arddangosfeydd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr y Gymraeg cymwys yn bresennol, fel y bo'n briodol.

4.1.1 **Cyhoeddiadau**

Byddwn yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'r system sgorio a nodir isod, gyda fersiynau'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a'n trefn arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd a fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD ROM, neu fel arall.

4.1.2 **Gwefannau**

Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddwn yn paratoi fersiynau Cymraeg o unrhyw dudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau. (Bydd hyn yn cynnwys lleoedd gwag Recriwtio CHH drwy eu gwefan a gwefan Remploy.)

Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros gyfnod o amser.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â datblygu gwefannau.

Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, cynhwysir y fersiynau Cymraeg ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

4.1.3 **Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig**

Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru'n gwbl ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'r system sgorio a nodir isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau. Bydd deunydd esboniadol cysylltiedig yn gyfan gwbl ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'n system sgorio ar gyfer cyhoeddiadau.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni Cymraeg a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn y Gymraeg.

Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynydd dderbyn y wybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n unol â'r uchod.

Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

4.1.4 **Hunaniaeth gorfforaethol**

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu - a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, cardiau cydnabod, nodiadau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.

4.1.5 **Arwyddion yng Nghymru**

Byddwn yn sicrhau bod pob un o'n harwyddion parhaol a thros dro, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog, ac y bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn yn glynu at yr arfer hwn lle bynnag y caiff arwyddion eu gosod am y tro cyntaf, neu pryd bynnag y byddwn yn ailosod arwyddion.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwydd, yn cynnwys arwyddion electronig.

Eithriad i'r uchod fydd arwyddion i'w defnyddio mewn digwyddiadau megis eisteddfodau yng Nghymru, lle y defnyddir arwyddion Cymraeg yn unig.

4.1.6 **Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff**

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddosberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn y Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai cânt eu cyhoeddi fel un fersiwn dwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn y Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn y Saesneg.

Gellir cyhoeddi hysbysiadau recriwtio yn y Saesneg sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddosberthir ledled y DU, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad y Gymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn y Gymraeg gydag esboniad cryno yn y Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos unrhyw le arall yng Nghymru'n ddwyieithog.

4.1.7 **Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau**

Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn y Gymraeg lle mae terfynau amser yn caniatáu hynny.

Pan fyddwn yn gosod datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, ein harfer safonol fydd eu gosod yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddwn yn sicrhau bod siaradwyr y Gymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau, y mae Remploy wedi cytuno â nhw, gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

5. **Gweithredu'r cynllun**

5.1 **Staffio**

Mae angen i bob un o'n gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru gael mynediad i ddigon o staff Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg. Caiff y gweithdrefnau canlynol eu dilyn yn unol â hynny:

Byddwn yn nodi'r gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithfan neu dîm, neu gall fod ynghlwm wrth swydd benodol.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer y staff a all siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu'r Gymraeg). Byddwn hefyd yn nodi staff sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg er mwyn cynnal eu rôl ac edrych ar ffyrdd lle gallwn annog dysgwyr newydd yn gadarnhaol.

Caiff canlyniadau'r ddau ymarfer hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sy'n gallu siarad y Gymraeg. (Gallwn ystyried y gwasanaethau a gynigir gan unrhyw linellau cymorth, canolfan alw neu gyfleusterau tebyg wrth i wneud hynny).

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gynnig staff sydd â'r gallu i siarad Cymraeg y cyfle i lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Byddwn yn sicrhau bod ein hysbysebion swydd yn llawn gynhwysol ac yn hybu cyfleoedd i siaradwyr y Gymraeg.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau ymgeiswyr swyddi a staff cyfredol yn y Gymraeg. Trafodir hyn dan *Recriwtio*, isod.

5.2 **Recriwtio**

Pan fyddwn yn recriwtio staff byddwn yn dilyn y wybodaeth a gesglir wrth ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan *Staffio* uchod.

Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn *hanfodol*, byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu

siarad Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth neu wrth gynnig hyfforddiant Cymraeg i staff presennol.

Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi pan fydd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Ar gyfer pob swydd, proffil swydd a ffurflenni cais eraill, darperir ffurflenni cais yn y Gymraeg ar ofyn ymgeisydd.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a yw bod yn rhugl yn y Gymraeg yn sgil ddymunol neu'n hanfodol – a nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

5.3 **Hyfforddiant iaith**

Byddwn yn annog ein staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg – a byddwn yn eu cefnogi i wneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd, neu sy'n delio'n rheolaidd â siaradwyr Cymraeg fel rhan o'u gwaith.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

5.4 **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau TGCh byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

5.5 **Gweithio mewn partneriaeth**

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny'n unol â'r cynllun hwn.

5.6 **Trefniadau mewnol**

Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd gweithredu'n unol â'r cynllun yn fater o **gydymffurfiaeth**.

Bydd gan reolwyr y **cyfrifoldeb** o weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith o fewn terfynau amser a gytunwyd ar gyfer datblygu a gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i **gydlynu'r** gwaith sydd ei angen i gyflwyno, monitro ac adolygu'r cynllun hwn. Bydd yn cynnwys gwneud staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau swydd ar gyfer cydymffurfio â'r cynllun.

Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau'n gyson, **gynllun gweithredu** manwl i'w gytuno â'r Bwrdd, gan nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu'n weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan â phosibl yn dilyn y dyddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn monitro cyflwyniad ymrwymadau a nodwyd yn y cynllun hwn mor fuan â phosibl.

Cyhoeddir y cynllun i'n staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.

Byddwn yn rhoi arweiniad ar ein Mewnrwyd iin staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau **briffio a hyfforddi** ar gyfer ein staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond **cyfieithwyr** neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys y byddwn yn eu defnyddio er mwyn cyfieithu deunydd sydd wedi eu hargraffu a deunydd electronig. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.

Byddwn yn ymgymryd ag **unrhyw fath o gyswllt** efo'r cyhoedd yng Nghymru, sydd heb ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn cynllun.

5.7 **Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**

Byddwn yn gweithredu yn unol â chynghor y Bwrdd ynglŷn a *Deddf yr Iaith Gymraeg*, y *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol*.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i'r Gymraeg os oes angen, ar yr amod na fydd angen cyfieithu mwy na 500 o eiriau.

5.8 **Monitro**

Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a ddaw gyda'r cynllun hwn. Byddwn yn adrodd i'n rheolwyr hŷn ar y cynnydd hwnnw.

Bydd ein gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn adrodd am ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais.

Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â nod ac amcanion y cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith. Byddwn yn defnyddio dull hunanasesu, i'w gytuno gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn.

5.9 **Adolygu a diwygio'r cynllun**

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.10 **Cwynion ac awgrymiadau i wella**

Bydd Remploy yn croesawu a chofnodi unrhyw awgrymiadau i wella'r cynllun. Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, at yr uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Rhia Jones
Remploy Cyf.
Llawr 1af Siambrau Farchnad
Y Parêd
Castell-nedd
SA11 1PU

Neu drwy e-bost at: rhia.jones@remploy.co.uk.

Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion - ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a gynhelir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.

6. Atodiad 1:

Amserlen Cynllun Iaith Gymraeg Remploy

Targed	Dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith
<p>Arweiniad Staff Rhoi arweiniad i staff ynghylch sut i weithredu a chyflawni'r addewidion a wneir yn y cynllun</p>	<p>Mewn grym erbyn cymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Perchenogaeth y Cynllun Penodi aelod hŷn o staff i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer gweithredu'r cynllun</p>	<p>Mewn grym erbyn cymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Cyhoedduswydd ar gyfer y cynllun Cyhoeddi'r cynllun ar y wefan ac unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd perthnasol</p>	<p>O fewn 3 mis o gymeradwyo'r cynllun</p>
<p>System sgorio Cytuno ar system sgorio i nodi pan fydd angen cynhyrchu cyhoeddiadau, ffurflenni, taflenni yn y Gymraeg.</p>	<p>O fewn 3 mis o gymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Adolygu cyhoeddiadau Publications review Adolygu cyhoeddiadau, taflenni, ffurflenni ayyb presennol Remploy i benderfynu beth sydd angen ei gynhyrchu yn y Gymraeg.</p>	<p>O fewn 3 mis o gymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Adolygu gwefan Sicrhau bod pob adran berthnasol o'r wefan ar gael yn y Gymraeg (gan gynnwys unrhyw fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau, taflenni, ffurflenni ayyb.) Cytuno ar rhaglen o'r math o gynnwys ar ddylai fod ar gael ar y wefan gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>	<p>O fewn 6 mis o gymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Dewis iaith Gosod mesurau yn eu lle i gadarnhau'r iaith a ddewisir gan y cwsmer</p>	<p>O fewn 6 mis o gymeradwyo'r cynllun</p>
<p>Monitro'r gwasanaeth Gosod mesurau yn eu lle i fesur y galw a sicrhau y gall</p>	<p>O fewn 6 mis o gymeradwyo'r</p>

7. Atodiad 2:

Systemau sgorio ar gyfer ffurflenni

Dyma'r system sgorio sydd yn cynnig dull y gall cyrff cyhoeddus ei ddefnyddio i'w helpu i benderfynu p'un a dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg ai peidio, boed hynny'n ddogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Gall cyrff cyhoeddus addasu'r ddogfen ganlynol i adlewyrchu natur eu gwaith.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac anhyblyg. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i *helpu* gyda'r dasg o bennu'r ffordd ymlaen ym mhob achos. Serch hynny, os gwneir penderfyniad i beidio â gweithredu yn unol â'r system sgorio, rhaid i sefydliadau allu egluro pam.

Dylid cadw'r ddogfen sgorio ar ffeil ar gyfer pob cyhoeddiad, fel cofnod o'r broses sgorio.

1. Nifer y copïau a argraffir bob blwyddyn i'w cyhoeddi yng Nghymru:

1 – 500: sgôr = 1
500 – 5,000: sgôr = 2
dros 5,000: sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged (uniongyrchol neu anuniongyrchol):

- y cyhoedd: sgôr = 15
- rhan benodol o'r cyhoedd sgôr = 10
- unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol sgôr = 0

3. A fydd y ffurflen yn ymdrin â maes neu ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â'r Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, yr henoed, amaethyddiaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau - neu a fydd y ffurflen yn cael ei hanelu at ardaloedd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg yn unig.

- Bydd: sgôr = 10
- Na fydd: sgôr = 0

4. Am faint y bydd y ffurflen yn cael ei defnyddio? (Ailargraffu'r ffurflen; ni ddylid ystyried newidiadau bach fel newid y flwyddyn ar frig y ffurflen, neu newid rhan o'r ffurflen i adlewyrchu rheolau newydd, fel diwedd cylch bywyd yr hen fersiwn).

0 – 6 Misoedd: sgôr = 1
6 Mis - 2 flynedd: sgôr = 2
mwy na 2 flynedd: sgôr = 4

5. Nifer y geiriau yn y ffurflen:

0 – 500:	sgôr = 4
500 – 1000:	sgôr = 3
1000 – 5000:	sgôr = 2
dros 5000:	sgôr = 1

6. Nifer y tudalennau yn y ffurflen:

1 – 5:	sgôr = 4
5 – 10:	sgôr = 3
10 – 20:	sgôr = 2
dros 20:	sgôr = 1

Dylid adio sgôr pob cwestiwn - a'i gymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ar fersiwn papur o'r ffurflen:

0 – 13 : nid oes angen paratoi fersiwn Cymraeg
14 - 18 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg
dros 18: mae angen paratoi fersiwn Cymraeg

Penderfyniad ar fersiwn electronig o'r ffurflen (i'w gynnwys ar wefan y corff ac ati).
Anwybyddwch gwestiynau 1 a 6 wrth i chi gyfrifo'r sgôr hwn:

0 – 11 : nid oes angen paratoi fersiwn Cymraeg
12 - 14 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg
dros 14: mae angen paratoi fersiwn Cymraeg.

Penderfyniad ar gyhoeddi cylchlythyr dwyieithog, neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylid ffafrio ffurflenni dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fel man cychwyn. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws yn weinyddol (o ran rheoli stoc a dosbarthu) na darparu ffurflenni Cymraeg a Saesneg. Mae iddo hefyd fanteision o ran diwallu anghenion teuluoedd lle mae rhai aelodau o'r teulu yn siarad Cymraeg, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod y ddau fersiwn yr un mor hygyrch mewn unrhyw leoliad - fel nad oes angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng defnyddio fersiwn Saesneg, neu ofyn am fersiwn Cymraeg a gorfod aros o ganlyniad.

Mae hyn hefyd yn wir lle y cyhoeddir ffurflen gan sefydliad y tu allan i Gymru, i'w dosbarthu yng Nghymru a Lloegr. Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn argymhell y dylid cyhoeddi fersiwn dwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru (yn hytrach na chyhoeddi fersiynau Cymraeg ar wahân o'r ffurflen).

Fodd bynnag, gellir gwneud penderfyniadau i gyhoeddi ffurflen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân os bydd costau ac ymarferoldeb yn golygu bod cyhoeddi fersiynau ar wahân yn anochel. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau yn y ffurflen (os bydd paratoi fersiwn dwyieithog yn ei gwneud yn rhy swmpus ac anhydrin).

Ar gyfer ffurflenni a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a ddsberthir 'yn ôl y galw' - a lle y mae'r defnydd disgwylidig o'r ddogfen yn fach, efallai y bydd modd cyhoeddi'r fersiwn Cymraeg ar wefan y sefydliad yn unig. Yn yr achosion hyn, dylai'r sefydliad fod yn barod i drefnu argraffu copi caled o'r ffurflen, ar gais y cyhoedd.

Nid yw'r cyngor hwn ar gyhoeddi ffurflen yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn berthnasol i ffurflenni a gyhoeddir ar wefan sefydliad. Bydd ffurflen electronig Gymraeg wrth reswm yr un mor hygyrch â'r ffurflen Saesneg, p'un a gaiff ei chyhoeddi fel ffurflen pdf ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio os yw ffurflen ar gael fel dogfen ryngweithiol, yna dylai fod yn rhyngweithiol yn Gymraeg a Saesneg.

8. Atodiad 3:

System Sgorio ar gyfer Cyhoeddiadau

Dyma'r system sgorio:

1. Nifer y copïau a argraffir bob blwyddyn *i'w cyhoeddi yng Nghymru*:

1 – 500: sgôr = 1
500 – 5,000: sgôr = 2
dros 5,000: sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged (uniongyrchol neu anuniongyrchol¹) neu statws²:

- y cyhoedd (neu statws uchel): sgôr = 15
- rhan benodol o'r cyhoedd (neu statws canolig): sgôr = 10
- unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol (neu statws isel): sgôr = 0

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes neu ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â'r Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, yr henoed, amaethyddiaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau - neu a fydd yn cael ei anelu at ardaloedd â chanran uchel, neu nifer fawr o siaradwyr Cymraeg.

- bydd: sgôr = 10
- na fydd: sgôr = 0

4. Am faint y bydd y cyhoeddiad yn cael ei ddefnyddio? (Ailargraffu'r cyhoeddiad; ni ddylid ystyried newidiadau bach fel newid y flwyddyn ar frig y cyhoeddiad, neu newid rhan o'r cyhoeddiad i adlewyrchu rheolau newydd, fel diwedd cylch bywyd yr hen fersiwn). **Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori**, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn lle hynny (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):

0 – 6 mis: sgôr = 1
6 Mis - 2 flynedd: sgôr = 2
dros 2 flynedd: sgôr = 4

5. Nifer y geiriau yn y cyhoeddiad:

0 – 1000: sgôr = 4
1000 – 5000: sgôr = 2
dros 5000: sgôr = 1

¹Er enghraifft, gallwch anfon dogfen at gorff cyhoeddus arall, ond gyda'r bwriad y byddant yn ei hanfon ymlaen i'r cyhoedd.

²Er enghraifft, a fydd yn ddogfen allweddol, yn ganolog i'ch perthynas â'ch rhanddeiliaid yng Nghymru? Neu a fydd yn denu cryn dipyn o sylw gan y cyfryngau yng Nghymru? Dylid dyfarnu'r nifer **uchaf** posibl o bwyntiau. Er enghraifft, dylai dogfen a anelir at *unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol*, ond â *statws uchel*, gael 15 o bwyntiau, nid 0 pwynt.

6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau *fel fersiwn uniaith* o'r cyhoeddiad:

1 – 10:	sgôr = 4
10 – 20:	sgôr = 2
dros 20:	sgôr = 1

7. (Cwestiwn ar gyfer **dogfennau ymgynghori yn unig**). Ymdrîn â phwnc sy'n:

Arbenigol / technegol iawn: sgôr 1
Gweddol gymhleth ond o ddiddordeb i lawer: sgôr 2
Hawdd ei ddeall / o ddiddordeb cyffredinol: sgôr 4

Dylid adio'r sgoriau - a'u cymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ar fersiwn **papur** o'r cyhoeddiad:

0 – 14: nid oes angen paratoi fersiwn Cymraeg
15 – 18: mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg (ond os na penderfynir paratoi fersiwn Cymraeg, dylid cyhoeddi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
dros 18 : mae angen paratoi fersiwn Cymraeg

Penderfyniad ar fersiwn **electronig** o'r cyhoeddiad (i'w gynnwys ar wefan y corff ac ati). **Anwybyddwch** gwestiynau 1 a 6 wrth i chi gyfrifo'r sgôr hwn:

0 – 11: nid oes angen paratoi fersiwn Cymraeg
12 i 14: mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg (ond os na penderfynir paratoi fersiwn Cymraeg, dylid cyhoeddi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
dros 14 : mae angen paratoi fersiwn Cymraeg.

Penderfyniad ar gyhoeddi dogfen **ddwyieithog**, neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylid ffafrio dogfennau dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fel man cychwyn. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws yn weinyddol (o ran rheoli stoc a dosbarthu) na darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae iddo hefyd fanteision o ran diwallu anghenion teuluoedd lle mae rhai aelodau o'r teulu yn siarad Cymraeg, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod y ddau fersiwn o'r ddogfen yr un mor hygyrch mewn unrhyw leoliad - fel nad oes angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng defnyddio fersiwn Saesneg, neu ofyn am fersiwn Cymraeg a gorfod aros o ganlyniad.

Mae hyn hefyd yn wir lle y cyhoeddir dogfen gan sefydliad y tu allan i Gymru, i'w dosbarthu yng Nghymru a Lloegr. Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn argymhell y dylid cyhoeddi fersiwn dwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru (yn hytrach na chyhoeddi fersiynau ar wahân o'r ddogfen yn Gymraeg).

Fodd bynnag, gellir gwneud penderfyniadau i gyhoeddi dogfen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân os bydd costau ac ymarferoldeb yn golygu bod cyhoeddi fersiynau ar wahân yn anochel. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau yn y ddogfen (os bydd paratoi fersiwn dwyieithog yn ei wneud yn rhy swmpus ac anhydrin).

Ar gyfer dogfennau a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, a ddosberthir 'yn ôl y galw' (er enghraifft, fel ymateb i ymgyrch hysbysebu) a lle y mae'r defnydd disgwylidig o'r ddogfen yn fach, efallai y bydd modd cyfiawnhau cyhoeddi'r fersiwn Cymraeg ar wefan sefydliad yn unig. Yn yr achosion hyn, dylai'r sefydliad fod yn barod i drefnu argraffu copi caled o'r ffurflen, ar gais y cyhoedd. Gellir gwneud hyn yn fewnol, neu trwy argraffwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn archebion bach.

Nid yw'r cyngor hwn ar gyhoeddi dogfen yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn berthnasol i ddogfennau a gyhoeddir ar wefan sefydliad. Bydd dogfen electronig Gymraeg wrth reswm, yr un mor hygyrch â'r ddogfen Saesneg, p'un a gaiff ei chyhoeddi fel dogfen pdf ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.